Cyfres Llanbedr | TACH. 1932. | Cyf. 32. Rhif 11.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

# Yr Ymofynnydd.

## Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd. Y Parch. T. Oswald Williams.

## — Cynnwys. —

Y "MEANS TEST."
FY HIRAETH.
DYFFRYN CLETWR FACH.
Y NERFAU.
PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.
MAES LLAFUR, 1932–33.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd aich rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

# YR YMOFYNNYDD.

**Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.**

*Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.*

*Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.*



YN BAROD Y MIS HWN.

## CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

**Pris - - 5/-.**

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL

## T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

**Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.**

# *Maes Llafur am 1932-1933.*

SAFON I. (I RAI DAN 10 OED).

1.—O'r Holwyddoreg gan y Parch. D. Evans. Rhan I. Gwaith yr ail flwyddyn.

2.—Dysgu'r Emyn: "O Dad anwylaf! Gwrando'n cri", Rhif 420 yn y Perlau Moliant. Y Safon gyda'i gilydd i'w ganu.

SAFON II. (I RAI DAN 13 OED).

1.—O'r Holwyddoreg. Rhan II. Gwaith yr ail flwyddyn.

2.—Mathew xiii. Y Damhegion yn y bennod a hanes tylwyth yr Iesu.

SAFON III. (I RAI DAN 15 OED).

1.—Mathew xiii.

2.—Gwybodaeth Gyffredinol o'r hyn ydyw'r Beibl.

SAFON IV.

1.—Gwybodaeth gyffredinol o'r hyn ydyw'r Beibl.

2.—Y gwahanol syniadau am Dduw yn y Beibl.

NODIADAU.—Rhoddir gwybodaeth mewn perthynas i'r arholiad yn nes ymlaen. Gofynnir i'r Ysgolion Sul ddanfon eu cyfraniadau i'r Trysorydd, MRS. JONES, Y Bryn, Llanybyther, erbyn Rhagfyr 20fed, er mwyn iddynt ymddangos yn Adroddiad y Gymdeithas.

S. E. BOWEN, *Ysgrifennydd.*

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

# *Yr Ymofynnydd.*

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. Tachwedd, 1932. Cyf. XXXII. Rhif 11.

## *Y "Means Test."*

" Y SAER UNEMPLOYED."

(Gydag ymddiheurad i Brother John yr *Inquirer* am ddefnyddio'r ffrâm a llawer o'r adeilad).

COFIAF am ddameg yn ymwneud a Chofgolofn Uchel Llundain a cherflun pres ar ei phen. Ceisiai rhywun gael gwybod pwy oedd y boneddwr pres. Gofynnodd i shawffer, a siopferch, plisman a phostman ond ni fedrent ddweyd wrtho. Ymesgusodai'r shawffer ei hun drwy ddweyd,— " Gyrraf heibio bob dydd ond ni ddywedodd neb wrthyf erioed pwy oedd y *bloke*." Ym mwstwr a mynd y moduriau nid oedd ganddo amser i ofyn nac edrych. Ni chredaf ei fod wedi gweld y cerflun. Ai'r siopferch heibio, o leiaf, ddwywaith y dydd ond nid oedd ganddi lygaid i'w weld. Pan ofynnodd iddi gyferbyn ag ef ni wnaeth ond chwerthin a dweyd " Nid fy un i mohono." Nid oedd ganddi hwyl na hamdden i feddwl ond amdani ei hunan. Ni wyddai'r plisman na'r postman chwaith ac oni wyr plisman na phostman yn Llundain, ofer yw. Cofiaf fy hun am dro tebig. Safwn ar scwâr yn Llundain a gwyddwn fod stryd gefn ar bwys ond gallaswn chwilio am awr yn ofer amdani. Gwelais blisman heb fod ymhell a gofynnais iddo. Nid oedd wedi clywed sôn am y stryd erioed. Edrychais heibio iddo at enau'r stryd y safai arni a chyfeiriais ei olwg at enw ryw deirllath oddiwrtho. Yr oedd yn sefyll ar y stryd yr holwn amdani. Gobeithio mai plisman newydd ydoedd.

Nid yw hynyna ond gyda llaw. Dechreuodd yr holwr athronyddu fel hyn o fethu cael ateb gan y shawffer, y siopferch, y plisman

na'r postman :—" Y mae dwy ffordd i anfon dyn i ebargofiant : drwy gladdu'i goffa neu drwy'i ddyrchafu 'mhell uwchlaw dynoliaeth fel na ŵyr ac na ofala neb pwy ydyw. *Y mae yna ffyrdd eraill i wneud hyn heblaw drwy gofgolofnau.*" Fe wneir hyn drwy gofgolofn yn aml mae'n wir. Gyda threigl amser anghofir y golofn ac ni ofelir cerflun pwy sydd arno ond y mae yna *ffyrdd eraill.* Nid oes betruster na cheir yma awgrym am *ffyrdd eraill* o anghofio Iesu. Dadwneir ei waith gan yr Eglwys Gristionogol drwy'i ddyrchafu ymhell uwchlaw dynion cyffredin. Y mae perigl y daw dydd pan na ŵyr ac na ofala neb pwy yw'r bod anelwig a addola'r Cristionogion mwy na boneddwr y cerflun pres yn Llundain.

* * *

Y mae'r geiriau *Means Test* ac *Unemployed* mor gyfarwydd heddiw fel na theimlaf ar fy nghalon i roi gwisg Gymraeg iddynt. Ni fynnaf iddynt ennill eu plwyf yng Nghymru Wen. Y mae rhai o'm darllenwyr hwyrach yn eistedd ar gyngor a weinydda'r Means Test a rhag ofn eu bod wedi harneiddio'r galon gofynnaf iddynt am sylwi ar fform ryfedd—Fform y Means Test wedi ei chymryd o'r Catholic Crusader. Delio y mae a chase *Rhif* 15078—*Saer Unemployed o'r enw Iesu*—crwydryn digartref ellid tybio—o leiaf yn ôl y fform " *of no fixed address.*" Ni ddywedir pwy oedd yn eistedd ar y case, ond mynnaf i gredu eu bod yn bobl *respectable* bob yr un—gwŷr cefnog wedi dod ymlaen yn y byd ac wrth *ennill y byd* wedi *colli rhywbeth anhraethol fwy*,—y galon a fedr gydymdeimlo a thrugarhau.

Synnwn i ddim nad oedd yno Pharisead a Saducead, ysgrifennydd ac offeiriad. Fe garwn i wybod enwau y Public Assistance Committee hwnnw a eisteddai ar gase y *Saer Unemployed.* Credaf eu bod yn onest fel llawer ar eu hôl, a synnwn i ddim na chredent fod y wlad mewn cyfyngder, a bod eisiau byddin arnynt rhag i'r Aifft, neu Rufain ymosod arnynt. Y mae eisiau bod yn onest iddynt, a rhaid i *rywrai* wneud y gwaith hwn ymhob oes. Y trueni yw mai pobl anghymwys yn fynych sy'n gwneud y gwaith. Y mae Case y *Saer Unemployed* dan ystyriaeth ac nid oes *stamp* ar ei gerdyn hyd y gwn i. Rhydd y swyddog y manylion amdano a medr *system* droi calon unrhyw swyddog yn *galon garreg.* Rhoir enw'r lle y'i ganwyd fel " Bethlehem yn debygol ". Nid yw yn bwysig o gwbl. Ni ofala neb ble y'i ganwyd. Rhoir y mannau eraill y bu'n byw ynddynt fel yr Aifft, Nazareth, Capernaum, Caersalem, Westminster, St. Paul's, a llawer Bethel yng Nghymru. Dywedir iddo fod yn gweithio wrth ei grefft 'slawer dydd yn Nazareth ond yr achos iddo " adael ei waith " oedd " ei awydd i wella dynoliaeth a'i rhyddhau." Yr amser " y bu allan o waith yn ystod y deuddeg mis diwethaf yw " blwyddyn ."

Dychmygaf glywed y Cadeirydd a gwg ar ei wyneb yn gofyn, " Faint ddywetsoch chwi ? " a'r swyddog yn ateb, " Blwyddyn ! " a phob un yn siglo'i ben yn ddoeth i'w ryfeddu ! O dan y " Plwyf " ceir " Dim un ". Deallaf yn well ystyr y geiriau " a Mab y dyn heb le i roi ei ben i lawr " o wybod nad oedd Iesu yn " blwyfol " yn unman. Nid oedd enwau neb respectable ganddo ar ei fform fel " tystion i'w gymeriad ". Nid oedd neb o'r cyngor yn adnabod yr un ohonynt. Nid oedd yno " ond enwau rhai benywod ofer a phersonau heb fod yn barchus o gwbl ". Nid oedd enw ar y fform i beri i'r cyngor respectable fod yn drugarog. Llythyren y gyfraith oedd hi i fod ! Ymhlith " pobl garedig " a fu'n cynorthwyo'r Saer cyn iddo ofyn am help hwyrach, fe sonia'r fform am " Fair a Martha " wedi rhoi droion " fwyd a llety " iddo. Tan " Berthynasau " y ceir " Brodyr, yn derbyn help achlysurol "—*transitional benefit* debig iawn ! Nid oedd gan yr Unemployed hwn na Chlwb nac Insiwrans na Thrade Union. Ymddengys mai'i brif ddyled oedd " ei fod ef ei hun yn *ddyled* i ddynoliaeth ac i Dduw." Ar yr adeg y llanwyd y fform yr oedd y Saer wedi bod allan o waith am dair blynedd.

Ni wnaeth neb un sylw ar yr adroddiad ond sibrydodd rhywun—" *a bad case.*"

Ar gefn y fform ceir datganiad y Saer ei hun, a chasglwn oddiwrtho awgrymiadau am y bywyd yr oedd yn fyw a hefyd am y drafferth a gymerth yr awdurdodau i " dwrio " i hanes bywyd y *Saer* hwn. Sonid gynt am y Chwilys Rhufeinig ond nid oedd fymryn mwy manwl na'r Means Test. Down i wybod fod y Saer yn " cerdded o fan i fan ynghwmni nifer o bobl isel a wnae ambell orchwyl ar dro, megis pysgota a'i gyffelyb. Fe'i cyhuddid o fod wedi lladrata ebol asyn, neu o leiaf wedi cymryd " joy ride " arno, a rhoid iddynt y gair eu bod yn anffyddwyr a thorrwyr cyfraith a threfn."

* * *

Ar ddiwedd yr adroddiad ceir barn neu *remarks* y Swyddog ar y case. Credai'r Swyddog ymchwil fod y gwres wedi codi i'w ben er ei fod yn edrych yn dda a chryf. Siaradai lawer am ei Dad a'i blasau ond dywedid fod ei dad wedi marw, ac ni fedrai yntau ddweyd ble yr oedd y plasau. Awgrymai wrth y swyddog eu bod " oddimewn ". Gofynnodd i'r Swyddog roddi ei waith i fyny a'i ganlyn ef ond ni addawai gyflog. Ymddangosai ei fod yn credu mewn Chwyldro Cymdeithasol a wnai yr olaf yn flaenaf a'r blaenaf yn olaf, ond gwrthododd y Swyddog wastraffu rhagor o amser arno.

* * *

Ymhellach deallwn iddo wedyn ymddangos ger bron y Cyngor ac fe'i beiwyd yn dost am ei ddiffyg cynhildeb, gwaith a chymed-

roldeb. Nid wyf yn sicr na chofient am droi'r dŵr yn wîn yng Nghana a'r gwledda. Beient hefyd y cwmni isel a oedd ganddo. Ar y cyngor yr oedd gwraig ond sicr ei bod yn wraig fonheddig. Disgwyliaf i o leiaf galon a chydymdeimlad gan wraig ar unrhyw gyngor. Credaf ei bod yn ymgnawdoliad o dosturi a thrugaredd bob cynnig neu nid yw yn llanw ei lle yno. Ni ddaw'r wraig hon drwy'r praw yn dda. Cynhygiodd hi iddo "set o offer saer" ond iddo fynd yn ôl at ei grefft. Credai'r aelodau ei fod yn gynnig teg a sicr iddynt basio fod y cynnig yn cael ei gofnodi ar y *minutes*. Na feiwn mohoni yn rhy drwm. Nid wyf yn sicr mai nid dyna yw cynnig crefyddwyr hyd heddiw i Iesu—*set o offer saer*—eisiau cael rhywbeth ymarferol ac nid *gwrogaeth enaid*—O'r hyn leiaf ni fedrai'r cyngor wneud dim yn rhagor drosto ac yntau o wybod ei waith yn gwrthod yr "offer saer."

* * *

Darllenaf beunydd am broblem y diwaith a rhywrai â gwên wawdlyd ar eu hwynebau yn sôn am bleser byw ar y *dole* heb weithio. Ni wyddant ddim am "enaid yn gwaedu" a rhywrai yn newynnu yn hytrach na wynebu pobl *respectable* a eistedd ar lawer cyngor i weinyddu y Means Test. Y mae'r Diwaith yn sicr o un peth. Fe ddeellid ei gase gan y Saer Unemployed. Nid oedd Iesu ond dyn a ddaeth wyneb yn wyneb a ffeithiau celyd bywyd. Gwyddai beth oedd mynd ar *hunger-march* a fel y diwaith heddiw a chael ei gyhuddo o "dynnu tywys", ond cadwai ysbryd cysurus yn wyneb hyn i gyd. Credaf fod ei "*sense of hiwmor*" wedi'i gadw rhag anobeithio lawer tro, ac os oes dim yn mynd i'n cadw rhag Chwyldro heddiw nid ymdrech llywodraeth na thrugaredd cyngor mohono ond dyn drwy'i sense of hiwmor yn medru chwerthin am ben y pembleth a'r annibendod i gyd.

Ni ddarllenais i ddim mwy deifiol na gwatwareg finiog rhyw *unemployed*. Nid oedd ond ceiniog yn ei boced. A'r geiniog hon prynodd focsed o sialc lliw ac ar y paement tynnodd lun "papur punt" gan ysgrifennu o dano "*Drawn from memory*"—"Wedi'i dynnu o'r côf."

Dyma rywbeth tebig i Iesu yn tynnu llun neu ysgrifennu a'i fys ar y llawr pan ddygpwyd ato y wraig a ddaliwyd mewn godineb. Ni wn i ba lun a dynnai'r Iesu heddiw ar baement byd ond credaf y tynnai lun tŷ ei Dad, a llu o'r *unemployed* wedi cyrraedd yno a nifer (nid i gyd, ac nid y mwyafrif hwyrach) ond nifer mawr o wleidwyr a phwyllgorddynion wedi'u cau allan, ac Iesu ei hun yn mynwesu y crwydriaid llesg a blin hyn—unemployed y byd—gan gyfeirio'i fys at y rhai tu allan gan ddweyd "Pwy a'ch gosododd chwi yn farnwyr ar y truain hyn?"

N. a N.

# *Fy Hiraeth.*

DYDD rhyfedd fu hwn ar gyfrif profiadau cymysg a ddaeth i mi. Cyfnewidiol fu'r tywydd, ac effeithiodd hynny ar fy ysbryd innau. Agorodd y dydd yn addawol iawn mewn pelydrau. Ymhen ychydig oriau disgynnodd yr eira'n drwm gan droi'n wlaw tua'r prynhawn. Fin hwyr, daeth niwl trwchus i lenni'r gororau pell.

Cymysg fu'm helynt innau, hefyd. Wedi te, gadewais fy ystafell ar ddau neges go bwysig, ond gwahanol eu natur.

Cenais yn iach i'm cath ddu a eisteddai'n daclus yng ngwres y tân. Yn gwmni iddi yr oedd fy nghyfaill, Dic.

Atebodd hi fy ngeiriau mewn grwndi lleddf, gan ddeisyf arnaf i ddychwelyd cyn gynted a bo modd.

Dyma fi allan drwy'r drws a'm bryd ar fynychu dau dŷ. Fe'm hysbyswyd fod deuddyn newydd droi adref o'u mis mel. Gan mai fi oedd gwas y priodfab yn y briodas, meddyliais mai iawn oedd i mi holi eu hynt, a chael eu profiad. Hwyrach y buasai hynny yn ysbrydiaeth i minnau i anturio i'r un ystad.

Euthum yno a'm calon yn llon, canys gweddus oedd bod "yn llawen gyda'r rhai sydd lawen."

Wedi gwrando ar yr hanes hyfryd, daeth diwedd i'm profiad melys. Bu'n rhaid imi ymadael, a drachtio'r sur, cyn hir, ar ôl hynny. Cerddais nepell i dŷ arall. Gwyddwn y disgwylid fi yno i estyn tipyn o gysur. Yn ddiweddar, ymwelodd angeu yn ddisymwyth a'r teulu gan ei chwalu'n ddidostur. Drwy'r ergyd honno collais un o'm cyfeillion gwresocaf.

Wrth gwrs, rhennais fy nghydymdeimlad a'r galarwyr, gan gofio'r gorchymyn i wylo "gyda'r rhai sydd yn wylo."

Cyn hir, dychwelais i'm tŷ trwy ganol y niwl afiach. Arfaethwn dreulio'r ychydig oriau, cyn noswylio, yng nghwmni fy nghyfaill, Dic, tan fagu'r gath.

Mae cath ddu yn lwcus, medd ofergoel. Mi osodaf lawer o bwys ar hynny, am nad wyf yn ofergoelus.

Er hynny, byddaf yn falch cael arian yn fy llogell wrth wrando am y waith gyntaf yn y Gwanwyn ar ddeunod y gwcw. Na, nid darogan anffawd a wna'r ceiliog wrth ganu ynghanol nos. Gystal imi gyfaddef, gwell gennyf ei fod yn fud. Ond, nid cred mewn ofergoeledd sydd wrth wraidd y ddyfarniad.

Beth bynnag am hynny, mae cath ddu a choler pinc yn brydferth.

Dynesais at y tŷ, a gwelais y llenni wedi eu tynnu dros y ffenestr. Yn dawel, agorais ddrws fy ystafell, ond y fagddu oedd yno.

Gwelwai'r tân yn brudd. Teyrnasai tawelwch dinoeth a chreulon.

Wel, safai Dic o'm blaen yn fud a gwelw. Yr oedd arwyddion bywyd wedi ei adael er's amser yn llwyr. Digyffro oedd ei ddwylo ar ei wyneb llednais. Mewn siom, eisteddais yn fy nghadair—fy nghymorth mewn llawer storom—gan ddiolch am gryfder ei breichiau i'm dal.

Na, nid oedd curiad yn y galon. Mae honno wedi sefyll,) beth bynnag yw'r achos am hynny.

Hanner awr yn ôl, cydymdeimlwn a chyfeillion yn eu colled hwy. Ychydig a ddirnadwn yr adeg honno, y byddwn innau cyn gynted mewn hiraeth ar ôl cyfaill annwyl arall.

Rhyfedd iawn yw ein tynged yn y byd hwn. Geill un fod ynghanol melyster drwy'r awr hon, ac hyd yr ên mewn gofid, yn y nesaf.

Yn naturiol, am amser, bum i yn ceisio adolygu cyfnod fy nghyfeillgarwch a Dic. Lledodd y gorffennol fel cynfas i'm blaen.

Rhannwyd gennym yr un ystafell am dair blynedd, ac ni chafwyd gair croes dros wefus y naill a'r llall.

Bum dyst o ddiwydrwydd Dic drwy'r cyfnod hwn. Ni ddaeth eiliad segur i'w hanes, hyd y gwn i. Persain ydoedd acen ei dafod bach bob amser, a swynol hefyd oedd ei wyneb agored, glân.

Pan fyddai gennyf bwyllgor neu gyfarfod i'w ymweled, medrwn ddibynnu yn hollol arno ef am yr amser i gychwyn. Os bum yn ddiweddar mewn man, rywdro,—a diau i hynny ddigwydd, na feier Dic. Gofalai efe fy mod yn cychwyn allan o'r tŷ mewn pryd. Wedyn, dibynnai ar fy noethineb fy hun, oherwydd, ni wnai, dan unrhyw amgylchiadau, fy nilyn ymhellach.

Weithiau, dychwelwn yn hwyr i'r ystafell, a gwelwn arwyddion ei wg wedi cronni yn ei drem.

Cadwasai ei gynddaredd rhag crwydro i'w acen. Beth bynnag a fyddai ei hwyl yr un oedd tinc ei lais. Ni effeithiai ei wyneb ar ei galon na'i eiriau. Bu hyn yn destun syndod i mi, droeon. Mor wahanol oeddwn i. Pan ffromaf, neidia'r mellt i'm llygaid, ac ymlusg geiriau dros fy ngwefus megys seirff gwenwynllyd. Na, ni allaf ffrwyno fy ngeiriau, unwaith y cyffroir fy nheimlad.

Druan o Ddic. Yr oedd ganddo lywodraeth ar ei eiriau bob amser.

A mi mewn euogrwydd yn dychwelyd yn hwyr i'r tŷ, brawychwn wrth syllu ar ei wyneb, a beiwn fy hun yn aruthr am aros allan cyhyd. Nid ei eiriau a'm ceryddai,—eithr yr olwg arno.

Er fod Dic yn gerddwr mawr, gwnai hynny mewn amser. Ceryddwn ef weithiau am fynd yn rhy gyflym. Yr oedd cyffyrddiad ag ef yn ddigon o awgrym.

Brydiau eraill, elai'n araf, ond hawdd oedd ei gael eto i'w le. Byddai un gair cywir gystal a chant iddo. Yr oedd ufudd-dod yn un o'i rinweddau amlycaf.

Tan gofio, cafodd fy nghyfaill, Dic, iechyd gwych yn ystod ei dair blynedd yma. Bu'n rhydd oddiwrth annwyd a chrygni. Ni thalwyd dimai goch am ei wella, erioed.

Syrthio'n ddisymwyth a wna'r sawl sydd wedi cael iechyd da, fel rheol. Llosgant fel cannwyll yn glir a chryf hyd y foment olaf, ac heb rybudd o fath yn y byd, neidiant i dywyllwch. Felly, mi gredaf, y digwyddodd diwedd gyrfa Dic.

Ceisiais ddyfalu beth fedrai afiechyd hwn fod. Fy marn heno, wrth sylweddoli ei fudandod, yw, mai clefyd y galon a'i distawodd.

Yn awr, tyrra rhinweddau fy nghyfaill o'm cylch. O, ei dafod di-wenwyn ! O, ei wyneb agored ! O, ei acen felus !

A gaf i eto glywed ei guriadau, a sŵn ei eiriau manwl ?

Mae hiraeth lond fy nghalon brudd yn ei llethu.

Saif y gath ddu yn syn yn ei galar. Tynnodd ymaith ei choler pinc oddiar ei gwddf, ac wele hi, wiethian, yn gyflawn yn ei du.

Fy nghyfaill annwyl, a ydwyt wedi tewi am byth ? A fydd yn rhaid imi wynebu bywyd bellach heb dy gymorth ? Paham na ddywedet wrthyf, cyn imi ymadael, nad oeddit yn teimlo'n dda ?

Waeth imi grio mwyach, daeth dy ddiwedd di—a'm pryder innau.

Er hynny, y mae arnaf awydd ceisio adfer dy fywyd. Weithian, Ddic,—tyrd yma. Ond, na, fedri di ddim, wrth gwrs.

Fy nghloc bach ! Mi'th weindiaf ! !

Un ! Dau ! Tri ! Ust ! ! !

Mae e'n mynd ! Ydyw'n wir,—yn mynd ! Hwre ! !

Mae e'n cerdded,—a hynny ar ei eistedd ! ! !

J.S.R.

# *Dyffryn Cletwr Fach.*

WEDI rhodianna, efallai yn hwy na ddylasem ogylch amgylch Penlôn Esger, yr ydym yn awr tua chwarter milltir yn is i lawr ac yn sefyll i gael trem ar eglwys St. John. Adeiladwyd hon yn y flwyddyn 1855. Y cyntaf a gladdwyd yma oedd Elias Jones, Coedlannau-fawr, plwyf Llanwenog. Bu farw Mai 25, 1861. Ychydig lathenni oddiwrthym saif yr hên Ysgoldŷ lle y bu amryw ysgolfeistri yn cadw ysgol, ac yn eu plith yr awengar Eilir Evans. Yr oedd ef yma tua thrigain mlynedd yn ôl, yn ddyn ifanc yn addysgu plant y dyffryn. Ganed ef yn y Garreglwyd ger Cenarth. Yr oedd yn berchen ar awen gref, a chredwn fod swyn a rhamant Dyffryn Cletwr Fach wedi bod yn gynhorthwy iddo i ddatblygu ei awen. Plethodd amryw ddarnau tlws iddo. Diwylliodd ei athrylith gynhennid i'r

fath raddau fel y daeth yn gystadleuydd peryglus mewn eisteddfodau. Cipiodd ei awdl, gadair Eisteddfod Aberteifi yn 1878 ar y testun "Gwareiddiad". Cyhoeddwyd ei weithiau "Rhyddiaith a Chân" yn 1909. Yn 1874 priodod â Mary Thomas, merch y diweddar Mr. a Mrs. Thomas, Meinigwynion, ymlaenau Dyffryn Cletwr Fach. Nid oes ond ychydig dros dair blynedd er iddi hi farw. Fel hyn y canodd Eilir i'r dyffryn :—

"I mi rhowch y dyffryn, yr afon a'r coed,
Ddewisodd Tawelwch yn drigfan erioed,
Lle caf o dan ofid a chur esmwythâd,
Lle llenwir fy nghalon gan dirion fwynhâd."

Dyma ni trwy gynorthwy'r bont wedi croesi i'r ochr dde i'r afon ac yn sefyll gerllaw yr hên fangre lle yr adeiladodd y Bedyddwyr eu heglwys gyntaf yn Sir Aberteifi. Enw yr Eglwys oedd Tŷ-newydd. Safai ar dir Penrallt ymron gyferbyn ag Eglwys St. John ac heb fod bellter mawr o amaethdy Glandŵr, lle y bu'r ddiadell yn addoli cyn symud i'r Tŷ-newydd. Ni wyddis yn gywir ddyddiad sefydliad yr achos yn y lle hwn, ond credir i hyn ddigwydd tua'r flwyddyn 1721. Yn 1742 aeth y brydles allan, a chan fod nifer yr aelodau a'r gwrandawyr yn lleihau yn ddirfawr, ni adnewyddwyd hi, a bu'r achos farw. Cofiwn am anedd-dŷ lle safai'r Capel, ei enw oedd Tanyrallt.

Rhaid aros munud eto yn y fan hon—Tanffordd yw enw'r lle. Hên anedd-dŷ John Tanffordd. Trigiannodd yma am yn agos wyth deg o flynyddoedd. Dyn yn meddu ar gymeriad mawr oedd John—yn hollol ddiniwed, geirwir, gonest, sobr ac yn weithiwr diwyd a dirwgnach. Os nad oedd yn gallu darllain, ysgrifennu a chyfansoddi awdlau yr oedd yn ymgorfforiad o foesau da. Y mae wedi ymadael a'r fuchedd hon ers amser maith ac y mae muriau yr hên fwthyn yn gydwastad â'r llawr.

Wele ni bellach ym Mhontshân yng ngodre'r dyffryn ac y mae Cletwr Fawr a Chletwr Fach yn sŵn ei gilydd. Traddodiad yn unig sydd yn ein harwain at y llecyn lle gynt y safai Ffynongeinor, preswylfod John Thomas y bardd. Ganed ef yn 1775 ym Mhenrhiw, Rhydowen. Mab ydoedd i Thomas Thomas, Twcwr, Pentre, Rhydowen. Treuliodd ran helaeth o'i oes yn ardal ei enedigaeth ond y mae tipyn o'r gynghanedd groes rywiog yn hanes ei fywyd. Cawn gofnodiad iddo fynd i Lundain a'i fod wedi gweithio yno am hir gyfnod. Cawn hefyd hanes iddo fod am ysbaid o amser ar y môr. Ni wyddis yn iawn pa un ai cyn neu ynte wedi dychwelyd o Lundain y dysgodd ei grefft fel gweydd. Glynodd wrth yr alwedigaeth honno hyd y diwedd. Adnabyddid ef yn gyffredin fel

Jaci'r Gweydd. Pan oedd tua deuddeg ar hugain oed ymbriododdd â Rachel Simon, ger Sychbant, a bu iddynt dri o blant, sef Mari, yr hon a briododd a Dafy brawd Thomas Humphreys, Penlôn, a phrofodd ei hunan yn wraig ddoeth a thalentog ; William yr hwn a fu farw'n faban a Dafydd. Treuliodd Dafydd ei oes fel gweydd ym Mwlch-y-fadfa ac yr oedd yntau wedi etifeddu digon o awen i rigymu yn weddol hwylus, ond nid oedd yn feddiannol ar dreiddgarwch ei dad. Yr oedd Jaci'r Gweydd yn enw teuluaidd yn ardal Pontshân ac yn barchus gan bawb. Yr oedd yn feddiannol ar feddwl cryf a threidgar, a hoff beth ganddo oedd myfyrio ar ddeddfau natur ac enillai seryddiaeth hefyd lawer iawn o'i sylw. Awyddai am wybodaeth, ac fe lwyddodd yn hyn i fesur helaeth trwy ddarllen a meddwl. Ei brif waith barddonol yn ddiameu yw " Cwyn y Cristion ". Yn y dernyn hwn ni a gawn lawer iawn o'i syniadau a'i brofiad crefyddol. Mae y ddwy gân " Eangder y Greadigaeth " a'r " Awrlais " yn ddwys ac addysgiadol. Dywedir ei fod yn 79 oed pan gyfansoddodd yr " Awrlais ". Bwriadai gyhoeddi ei weithiau barddonol ond clafychodd a bu farw yn y flwyddyn 1863, yn wyth deg ac wyth oed, cyn i'w fwriadau ddod i ben. Dyfynnir yma un pennill allan o gân " Cwyn y Cristion " :—

" O'i gariad yn y dechreu sylfaenodd Duw y byd ;
O'i gariad dianwadal, mae'n cynnal hwn o hyd ;
O'i gariad mae'n rhoi cerydd, o'i gariad mae'n rhoi hedd ;
O'i gariad bydd yn cosbi mewn byd tu draw i'r bedd."

Gwelir y pennill hwn mewn emyn ym " Mherlau Moliant ". Yr oedd yntau wedi cael ei nawseiddio gan dlysni'r ddôl a si'r afon. Tebig mai wedi iddo ddychwelyd o'r môr yr adfywiodd ei awen.

Ar yr un llecyn ymron, y safai ysgol enwog Aberglasne—llc y saif ysgol y Cyngor heddiw. Agorwyd yr ysgol hon gan y diweddar Barch. Thomas Thomas, gweinidog Pantydefaid, a chadwodd hi ymlaen yn ddidor, gyda llwyddiant mawr am yn agos 30 mlynedd. Yr oedd yn ddyn o bersonoliaeth fawr ac o ymddangosiad urddasol. Meddiannai feddwl diwylliedig a dawn i drosglwyddo ei wybodaeth i eraill. Golygfa hardd a chofiadwy oedd yr olwg ar ddyn mor wirioneddol fawr yn ymdrechu moldio meddyliau plant yr ardal. Dywedir iddo gael trafferth ac achos llawer o bryder efo un ysgolor. " Mensa " meddir oedd maen tramgwydd y bachgen hwn—yr oedd wedi cyrraedd oedran gŵr cyn iddo ymadael a'r ysgol, ac yr oedd wedi tyfu'n dal a chyhyrog. Ac wedi deg mlynedd ar hugain o ymdrech i feistroli " Mensa " ni wnaeth fawr gynnydd. Gofynnodd un o'i gyd-ysgolheigion y cwestiwn hwn :

" Pa beth a ddaw o'n tad ? mae pryder gwlad yn gofyn ;
Fe â a'i lyfr yn ei law i'r byd a ddaw, beth wedyn ? "

Atebwyd ef ar unwaith gan grwtyn miniog ei grebwyll fel hyn :

" Daw Gabriel yno'n union deg, a naw neu ddeg o'i frodyr :
A gwaeddant ma's heb rith o fawl, wel, dyma ddiawl o lyfyr."

Canodd rhyw fardd arall i'r bachgen hynod hwn pan oedd yn Ysgol Pontshân fel hyn :—

" O fewn y ganrif fu o'r bla'n,
Bu *Grammar School* ym Mhenbontshân ;
Cenhadwyr hedd a morwyr lu
A ddysgwyd dan ei chronglwyd hi."

" Ychydig heddiw sydd yn fyw
O'r ysgolheigion o bob rhyw,
Fu yno gynt o lawer plwy',
A'r athro treiddgar nid yw mwy."

Tebig fod awdur y penillion hyn yn aelod o'r ysgol gan ei fod yn gallu rhoi hanes y llygoden wen â ymwelodd a'r ysgol.

" Mae gennyf hanes ar fy nghôf
Fod yno gynt lygoden ddôf ;
Un wen ei lliw o'r tylwyth llwyd,
A briwsion bara oedd ei bwyd."

" A Dafydd wrth ei wers un dydd
Y wâr lygoden branciai'n rhydd,
Gan chwilio'n ddyfal ger y tân
Am 'chydig wres a briwsion mân."

" Roedd ef yn awr yn lled gyffrous,
Nes tynnu sylw rhai o'r boys,
A hoffent yr un fechan ddel
Mewn mantell wen a'i phranciau ffel."

" Yr athro waeddodd yn y fan,
' *Don't kill it Davy, be a man* ' ;
' Na wnaf ' medd yntau ' gilio cam ',
A chyda'r gair fe roddodd lam,
A phet yr ysgol mawr ei chlod
Yn farw nawr o dan ei dro'd."

Ymdrechodd yr athro ymhob dull a modd ddysgu Dafydd i rifyddu. Gofynnai gwestiynnau tebig i hyn iddo :—

" 'Roedd cant o frain ar goed y Ddôl
Fe saethwyd tair, pa faint ar ôl ?
Atebodd Dafydd megis sant
' Dim un, fe aethant oll i bant."

Beth yw y rheswm nad oes trwy yr holl ddyffryn heddiw yr un bardd, llenor na cherddor o nôd ?

Wrth Aberglasne gwelwn Cletwr Fach yn rhoi llam i fynwes ei chwaer-afon—Cletwr Fawr, ac y maent yn ymdroelli'n gysurus tua Theifi. Wrth sylwi arnynt yn brysio ymlaen daeth y geiriau hynny i'n côf " Yr holl afonydd a redant i'r môr, eto nid yw y môr yn llawn, o'r lle y daeth yr afonydd, yno y dychwelant eilwaith."

Pa bryd y gwnei di eto Gletwr Fach ymweled a'th darddle ar wastadedd y Whilgarn ? Canwn yn awr bennill o'r gân honno a oedd a mynd anghyffredin arni yn yr ardal yn yr hên amser gynt :—

" Yn awr mae'n rhaid ymadael,
Gwnaf lŵ wrth ganu'n iach,
Na ddeuaf nôl drachefen
I Ddyffryn Cletwr Fach."

GLAN GLOWON.

# *Y Nerfau.*

GWNAETH y Pregethwr gamsyniad mawr pan ddywedodd nad oedd dim newydd dan yr haul. Oes y pethau newydd ydyw yr oes hon. Llawenhawn oblegyd llawer o'r pethau newydd a berthyn i'r oes yma, ond y mae yn flin gennym oblegyd rhai o'i phethau newydd. Un o'r rheiny ydyw'r Nerfau. Clefyd cymharol newydd ydyw hwn, oni chredwn mai hyn a flinai'r Iddew ond ei fod ef yn ei briodoli i'r ysbrydion aflan. Cofus gennyf glywed am ddyn ieuanc yn dioddef oddiwrth y nerfau ac i hynafgwr ddweyd,—" Clefyd newydd ydyw hwnyna ; nid oedd sôn am dano pan yr oeddwn i yn ieuanc." Darllenais fod rhai o'r hen feddygon tua dau can' mlynedd yn ôl, yn gwrthod cymryd case o byddai rhywbeth " ar feddwl y claf ". Amryw flynyddoedd yn ôl, pan yn anhwylus, bum gyda meddyg oedd yn Sais. Gofynnais iddo a oedd yn meddwl y gallai fy ngwella. Atebodd,—" Yes, if you will help me." Gofynnais eilwaith pa help a allwn i roi iddo er fy ngwella. A'r atebiad roddodd oedd :— " By not worrying about yourself ". Dyma'r achos fod llawer

yn dioddef oddiwrth y clefyd newydd y soniwn am dano ydyw—*worry*. Mae mwy o *worry* yn awr nag oedd cynt. Mae gofynion bywyd wedi myned yn drymach nag oeddynt, ac y mae yr ymdrech i fyw yn galetach mewn canlyniad i hynny, fel y mae nerth meddwl, ysbryd a chorff pobl yn cael eu dihysbyddu.

Arweinia hyn i amryw o ddrygau. Un o'r drygau ag yr arweinia iddynt yw yr awydd am gyffroadau newydd : yr awydd am *new sensations* : am bethau i greu teimladau hyfryd mewn pobl, a pheri iddynt anghofio eu pryderon.

Y fath awydd am bethau cyffrous sydd heddyw ! Mae llenyddiaeth gyffrous, nofelau cyffrous, a dramau cyffrous yn llawer rhy boblogaidd. Rhaid i'r newyddiaduron er mwyn cael cylchrediad helaeth, weinu i'r awydd hwn am y cyffrous. Gwelir hysbysiad yn y newyddiaduron tua diwedd pob wythnos y bydd hanes manwl rhyw ddigwyddiad cyffrous yn ymddangos ynddynt y Sul canlynol, a mawr y prynu sydd ar newyddion ar y Sul.

Gwelwn yr un ysbryd yn rhy amlwg mewn bywyd crefyddol. Pan fydd cyfarfodydd arbennig yn cael eu cynnal mewn eglwys, megis cyfarfodydd blynyddol, a phregethwr dieithr, ac enwog am ei ddoniau, yn gwasanaethu, bydd y capel yn orlawn. Mae gwasanaeth crefyddol yn cael ei gynnal o Sul i Sul yn y capel hwnnw, ond y mae seddau llawer o'r bobl a berthyn iddo yn wâg yn fynych. Rhaid cael rhywbeth allan o'r cyffredin i dynnu y tyrfaoedd hyd yn oed i wasanaeth crefyddol. Dengys hyn fod yr eglwys yn cael ei darostwng i lefel y neuaddau lle y cynhelir cyngherddau, a'r *theatre*, a'r sinema.

Yn yr hen amseroedd yr oedd bywyd yn fwy syml, yn fwy tawel, a'i ofynion yn ysgafnach. Mae bywyd yn llawer mwy beichus heddyw ; mae mor feichus fel y mae yn effeithio yn niweidiol ar feddwl ac ysbryd llawer, ac yn dyrysu eu meddyliau. Yr oedd y gair "neurotic," yr hyn a saif am y gwahanol fathau o glefydau y nerfau ag sydd i gael, yn un dieithr ganrif yn ôl. Ond heddyw gŵyr pawb beth a olyga.

Y fath swm o lenyddiaeth sydd yn dod allan o'r wasg heddyw yn ymdrin â chlefydau y nerfau. Nid oes yr un newyddiadur na welir ynddo hysbysiad am feddyginiaeth newydd i wella un o'r clefydau hyn. Dengys hyn fod yna lu o bobl yn dioddef oddiwrth yr hyn a elwir yn *nervous depression*, ac fod yna ymofyn mawr am feddyginiaeth i'r clefyd hwn.

Dywedodd Iarll Balfour yn ei araith pan roddai i fyny arweinyddiaeth ei Blaid fod gormod o waith yn cael ei ddisgwyl oddiwrth wladweinwyr fel y mae perigl i weinyddiaeth a deddfwriaeth i

ddioddef, ac y cawsid anhawster i gael dynion i ymgymeryd â'r llafur trwm ag sydd yn perthyn i fywyd gwleidyddol.

Mae bywyd wedi myned yn fwy beichus, nid yn unig yn y cylch gwleidyddol, eithr ym mhob cylch arall. Ac y mae y wasgfa hon ag sydd ar lawer yn dyrysu eu meddyliau ac yn llwfrhau eu hysbryd. Mae y sefyllfa hon yn eu anghyfaddasu i gyflawnu eu gwaith yn effeithiol. Nid ellir cyflawnu unrhyw orchwyl yn fedrus oni fydd tawelwch yn y galon.

Beth all ddwyn tawelwch i galon dyn ? Hynny yw, *gwir* dawelwch. Mae *drama* gyffrous, a llawer peth cyffelyb arall, yn dwyn rhyw fath o dawelwch i fynwes y sawl sydd mewn gwasgfa ond nid ydynt yn dwyn *gwir* dawelwch. Crefydd yn unig all ddwyn hynny. Yn yr eglwys y ceir y feddyginiaeth oreu i *nervous depression*.

Darllenais am *Specialist* mewn *nervous diseases* yn dweyd nad oedd wedi cael claf erioed o blith y Crynwyr. Y peth mwyaf nodweddiadol o wasanaeth crefyddol y Crynwyr ydyw eu bod yn ymostwng mewn tawelwch ger bron eu Duw.

Dywedodd meddyg o'r enw Saleeby—"Mae yn sicr fod gwir grefydd y feddyginiaeth oreu i brudd-der ; y moddion goreu i ddiogelu pobl rhag prudd-der, ac yn anghymarol yn ei gallu i wella pob math o glefydau gieuol."

Dyna dystiolaeth meddyg o berthynas i ddylanwad crefydd ar y bobl hynny ag y mae beichiau eu bywyd wedi bod yn drwm, ac wedi eu gwasgu i stâd o feddwl dyryslyd ac ysbryd prudd. Mae hwn yn wirionedd sydd ag eisiau ei gyhoeddi y dyddiau hyn, pan y mae pobl yn credu mai mewn chwareudai y cânt yr adloniant ag sydd yn feddyginiaeth i iselder meddwl ac ysbryd.

Un o'r rhai mwyaf llawen ei feddwl a nwyfus ei ysbryd o gymeriadau y Beibl ydyw y Salmydd. Gelwir ef yn bêr ganiedydd Israel. Sain fywiog ac ysbryd llawen a geir ganddo yn yr oll o'i ysgrifeniadau. Yr hyn a gyfrif am hynny ydyw y ffaith fod Duw yn sylwedd iddo, ac ei fod yn byw mor agos at Dduw. "Mi a lawenychaf yn yr Arglwydd, byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth," meddai. Carem bawb allu teimlo fel y Salmydd—teimlo fod bywyd yn hyfryd.

Sonia Iesu Grist am dangnefedd nad all neb ei ddwyn oddiar ddyn. Mae'r teimladau o bleser a llawenydd a gynyrchir ynom mewn chwareudy yn ddiflannol : nid ydynt yn ddigon dwfn i barhau a ni wyneb yn wyneb a gofidiau a dioddefiadau bywyd. Ond nid oedd pethau felly yn peri i dangnefedd yr Iesu ddiflannu.

Nid all dyn ddiystyru ei berthynas a Duw. Mae llawer wedi ceisio gwneud hynny, ond nid oes neb wedi llwyddo. "Canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynnag fyddo ai da ai drwg." Clywais unwaith fod un o'm cydnabod wedi myned yn anffyddiwr. Methwn gredu hynny. Nid allaf gredu fod anffyddiwr yn bod. Euthum ato i ofyn a oedd yr hyn a glywswn am dano yn wirionedd. Methodd roddi atebiad, a gwelais arwyddion o gywilydd ac arswyd yn ei wyneb. Tybiodd unwaith ei fod wedi myned yn anffyddiwr, ond wedi gwneyd camsyniad ydoedd. Dywed Obadiah am bobl Edom fod balchder eu calon wedi eu twyllo, a pheri iddynt feddwl eu bod yn gryfach na chenhedloedd eraill. Mae ambell feddyliwr yn twyllo ei hun am ychydig amser; cred ei fod wedi dod o hyd i wybodaeth sydd yn gwneud i ffwrdd a Duw, ac ei fod yn gallu esbonio y greadigaeth ar wahan i Dduw. Fel pobl Edom balchder ei galon sydd yn ei dwyllo i gredu felly am ychydig amser; ond nid hir y bydd Duw cyn profi ei fodolaeth iddo, a'i orfodi i'w gydnabod.

Nid all neb ddiystyru ei berthynas â Duw. A thra na fydd yn iawn rhwng dyn a Duw ni all dyn fod yn hapus. Ni all na *theatre* na sinema, na dim arall cyffelyb ei wneyd yn ddedwydd.

"Dedwydd fyth a rodio'n ddiwyd,
A'i gydwybod gydag ef,
Yn y ffordd a'i dwg i'r bywyd,
Yng nghyfiawnder mawr y nef."

Crediniaeth mewn Duw, a bywyd o ufudd-dod i ddeddfau Duw, ac i lais ein cydwybod a ddwg i ni y tangnefedd dwfn hwnnw nad all gwasgfeuon mwyaf bywyd ddim ei ddwyn oddiarnom.

L.W.

# *Pwyllgor y Gymdeithas.*

CYNHALIWYD cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yng Nghapel-y-groes fore Mercher, Hydref 14. Gan nad oedd un o'r Llywyddion yn bresennol etholwyd y Parch. E. R. Dennis i'r gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol.

*Y Safle Ariannol.* Rhoddodd y Trysorydd adroddiad manwl ynglyn a'r safle a chafwyd ar ddeall ei bod ymhell o fod yn ddymunol. Yn fyr, mae'r Gymdeithas mewn cryn ddyled. Y cwestiwn wedyn

oedd, sut mae dod allan ohono a gochelyd mynd i ddyled eto? Cytunwyd mai'r peth gorau fyddai cynnal cyfarfod arbennig i roi ystyriaeth fanwl i'r mater. Cynhelir y cyfarfod hwn yng Nghapel-y-groes nawn Sul, Hydref 30 am 4 o'r gloch pryd y disgwylir dau gynrychiolydd o bob Eglwys (yr Ysgrifenyddion a'r Trysoryddion, mor bell ag y mae hynny)yn bosibl) a'r Gweinidogion i ddod iddo. Cafwyd ar ddeall gan y Trysorydd fod yr Eglwysi canlynol heb ddanfon eu casgliadau i fewn am y flwyddyn :— Caeronnen, Ciliau, Rhydygwin, Graig Trebanos, Pantydefaid a Parcyvelvet.

*Buddsoddi'r Capital Fund.* Fod hawl gan yr Ymddiriedolwyr i fuddsuddo yn y lle a'r modd a dybiant hwy yn fwyaf diogel a llwyddiannus.

*Grants.* O dan yr amgylchiadau bu rhaid gohirio'r ystyriaeth o honynt.

*Penrhiw.* Cafwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd ynglyn a :— (*a*) Gwasanaethau ; (*b*) Adgyweirio ; (*c*) y Gweithredoedd. Gofynwyd i Mr. Jenkin Morgan a'r Parch. E. O. Jenkins i ymweld â'r lle. a dod ag adroddiad i fewn parthed pa adgyweirio i'w wneud gyntaf.

*Cronfa'r* 300,000 *Sylltau.* Derbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Gweithiol ynglyn â hon gyda brwdfrydedd a datganwyd y dymuniad y bydd i bob eglwys wneud ei gorau ynglyn â hi.

*Cyfarfodydd y Pasc.* Ein bod yn gofyn i Eglwys Cefncoed fod mor garedig a'u derbyn.

*Heddwch.* Ar gynhygiad Mr. W. S. Jones pasiwyd penderfyniad yn datgan ein siom a'n gofid am na fuasai rhagor wedi ei wneud gan y Gynhadledd Heddwch ynglyn a'r mater hwn ac yn apelio at ein Llywodraeth ni i wneud yr oll a all o blaid heddwch Rhyngwladwriaethol. Fod y penderfyniad yma i'w ddanfon i Gadeirydd y Gynhadledd Heddwch ac i'r Ysgrifennydd Tramor.

PANTYDEFAID A'R GRAIG, Llandysul.—Bu Cyrddau Diolchgarwch yr eglwysi yma Hydref 18 a 19. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos. Cafwyd ganddo bregethau godidog iawn, ac y mae'n dda gennym bod un o galibre Mr. Jones wedi dyfod yn ôl i Gymru. Sul, Hydref 23ain, bu'r Parch. Lewis Williams yn gwasanaethu yma. Dyma'r tro cyntaf iddo bregethu wedi nos ei nychtod a gwledd yn wir oedd ei wrando yn traddodi mor rhugl ag erioed. Ymfalchïa pawb o fewn y cylch Undodaidd yn adferiad Mr. Williams. Boed iddo nerth ac iechyd fel y gellir cael ei wasanaeth da am dymor hir eto.

# *Pwyllgor Gweithiol Eglwysi Ceredigion.*

CYNHALIWYD cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn Llwynrhydowen nawn Mercher, Hydref 12, pryd yr oedd yn bresennol gynrychiolwyr o Brondeifi, Alltyblaca, Capel-y-bryn, Capel-y-cwm, Graig, Pantdefaid, Llwynrhydowen a Bwlch-y-fadfa—ynghyd a'r Parchn. Lewis Williams, T. O. Williams, S. E. Bowen a E. O. Jenkins. Etholwyd Mr. Jones, Dolgerdd i'r gadair a phenodwyd ef yn Gadeirydd am y flwyddyn.

Cyn dechreu ar waith y Cyfarfod datganodd y Cadeirydd lawenydd y cwmni o gael y Parch. Lewis Williams yn ein plith, gan ddymuno iddo wellhad llwyr yn fuan.

Wedi darllen a derbyn cofnodion y cyfarfod blaenorol cafwyd adroddiad gan y Parch. T. O. Williams o'i ymweliad a'r Eglwysi. Siaradwyd gan amryw ar ei ôl. Pasiwyd unwaith eto ein bod yn amcanu at gael adroddiadau blynyddol (cyfrifon) yr oll o'r eglwysi wedi eu hargraffu'n un llyfryn am y flwyddyn 1932. Barn y Pwyllgor yw y bydd y draul ynglyn a hyn i bob Eglwys yn llai na'r hyn maent yn arfer dalu am argraffu, ac y rhydd y llyfryn gyfle i bob aelod i weld sut mae Eglwysi ereill yn gwneud. I allu gwneud hyn bydd yn ofynol fod pob Eglwys yn cau eu cyfrifon yn union gyda diwedd y flwyddyn fel y gall yr oll o'r adroddiadau gyrraedd yr Ysgrifennydd tua chanol mis Ionawr.

Cytunwyd fod pob cynrychiolydd ag oedd yn bresennol i egluro'r cynllun yn eu heglwysi eu hun ac fod yr Ysgrifennydd drwy lythyr i geisio egluro'r cynllun i'r Eglwysi na chynrychiolwyd mo honynt yn y cwrdd hwn.

Pasiwyd ein bod yn annog pob cynulleidfa nag sydd wedi mabwysiadu'r cynllun yn barod i benodi Pwyllgor Gweithiol i ymwneud ag unrhyw fater a all fod o fudd i'r Eglwys.

*Trysorfa y* 300,000 *Sylltau'r Gymdeithasfa Gyffredinol.* Pasiwyd ein bod yn apelio at bob Eglwys i wneud ei gorau gyda'r ymdrech hon. Penodwyd Mr. Jones, Dolgerdd yn Ddirprwywr y Rhanbarth hwn ynglyn â hon. Fe wna Mr. Jones ymweld â'r Eglwysi i egluro'r cynllun maes o law.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor yn Rhydygwin. O hyn allan gall unrhyw nifer o aelodau'r Eglwys lle y cynhelir y Pwyllgor bresenoli eu hunain ynddo.

E. O. JENKINS.

# *The General Assembly Centenary Fund.*

Ym mhwyllgor y Gymdeithas yng Nghapel-y-groes fe syrthiodd y goelbren arnaf, er gwell neu er gwaeth i actio fel Commissioner, neu rhywbeth tebyg i ffund y 300,000 o sylltau tuag at Gymdeithas Gyffredinol yr Enwad Undodaidd. Y mae y gair Commissioner yn peri braw nid bychan imi, ond nid felly y gwaith gan fy mod yn sicr y trŷ yn bleser a boddhad nid bychan. Y mae y gwres a'r brwdfrydedd sydd wedi ei ddangos eisioes yn arwyddocâd o lwyddiant y fenter. Nid yn aml y mae y Gymdeithas wedi aflonyddu ar byrsau aelodau ein henwad bychan yng Nghymru, ond i'r gwrthwyneb. Yr ydym wedi derbyn yn haelionus, os nad yn or-haelionus ar hyd blynyddoedd maith. Bydd yn werth i bob achos i daflu cipdrem yn ôl, a chyfrif y Grants a dderbyniwyd pan adeiladem ein Capeli a'n Vestries, y Sustentation a Subvention Funds, i'r Ymofynnydd a'r Perlau Moliant a'n Heglwysi Gweinion. Bydd y cyfanswm yn *eye-opener* i'r oes sydd yn awr yn medi o ffrwyth haelioni di-dor y cawodau aur sydd wedi dyfod o'i mynwes. Y mae wedi bod yn fam well na holl famau cymdeithasol ein byd, ac nid oes neb wedi sugno mwy o'i dwyfronnau nag Undodiaid Cymru. *Count your blessings.*

Fel pob Cymdeithas a phob person y mae yn awr yn dioddef yn drwm oddiwrth yr afiechyd economaidd sydd ar hyd a lled yr holl fyd yn bresennol. Y mae felly yn anfon allan ei "*Signal of distress*" at ei phlant er mwyn gosod ei funds ar dir diogel eto i gario ei gwaith daionus a gwerthfawr ym mlaen fel cynt dros Undodiaeth a Chrefydd Rydd.

Felly gofynner am 300,000 o sylltau. Gofynnir o leiaf swllt oddiwrth bob aelod a charwyr da ein hachos. Nid aberth a ofynnir, ond goreu cydwybod a phoced.

Gofynnaf felly yn rhinwedd y swydd sydd wedi disgyn arnaf ar i bob Eglwys ddechreu ar ei gwaith o ddifrif, a chadw ati yn ystod misoedd y gaeaf. Chwi fechgyn a merched ieuanc rhowch holl anterth eich nerth i'r gwaith o gasglu a chreu diddordeb yn ereill. Gofynner i bob plentyn yn yr Ysgol Sul roddi ei geiniog am ddeuddeg o Suliau. Yn sicr pan dŷf y plant i fyny yn aelodau cymdeithasol bydd gweld eu henwau a'u cyfraniadau yn llawenydd di-dor iddynt. Ni feddyliem ni fel plant y Bwlch ddod i'r Ysgol Sul heb geiniog i'r casgliad bob Sul, a Swllt ar ŵyl y Cynhaeaf i gasgliad y British and Foreign Unitarian Association.

Er mor wael yw ystad ariannol y wlad heddyw, yr oedd yn waeth y pryd hynny. Dim ond hyn gyda llaw, ond cofier nid oedd *cigarettes* a llawer o *sweets* yr adeg honno, dim ond gwerth ceiniog bob dydd Llun yn siop Pantcoch neu Talgarreg er prynu Spanis i gyflenwi ein hangenion am yr wythnos. Nawr, ynte blant, hyd y mae yn bosibl gofynnwch am geiniog bob Sul. Bendith Duw ar eich ymdrech.

Aelodau hŷn: rhowch yn rhwydd yn ol eich gallu. Hunan-ymwadwch! Aberthwch ychydig o'r *Luxuries* am fis neu ddau. Fe fydd y gronfa felly yn debyg o fod lawer o sylltau yn fwy. Chwi mewn gwell sefyllfa, peidiwch gorffen cyn rhoddi o leiaf ugain i fyny at gant o sylltau yn ystod misoedd y gaeaf. Cadwer ambell i Social Tea. Rhydd hyn gyfleu rhagorol i gael goreu ein pobl ieuanc.

Fe ofala y Women's League am hyn ac yn sicr fe wnant eu rhan yn ogoneddus.

Apwyntier casglwyr yn ein holl Eglwysi AR UNWAITH. Disgwyliaf glywed oddiwrthynt bob mis. Diolchaf hefyd am bob cynorthwy ariannol oddiwrth garwyr da yr achos, ar hyd a lled ein gwlad, heb fod yn gysylltiedig a'n Eglwysi yn bresennol. Cofier felly am anfon pob gohebiaeth ariannol i —

DAVID JONES, Dolgerdd,
Talgarreg, Llandyssul.

# *Priodas.*

HYDREF 7, ym Mwlchyfadfa, Mr. John Davies, mab Mrs. Davies, Felin, Talgarreg â Miss Rachel Jones, merch Mr. a Mrs. Evan Jones, Llawrcwrt, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, a'r Cofrestrydd. Hir oes a phob llwyddiant iddynt.

# *Marwgofion.*

MEDI 22, James, annwyl fab Evan a'r diweddar Margaret Davies, Penrhiwlas, Llanarth, yn 43 oed. Gadawodd mewn galar dad, pedair chwaer a llawer o berthynasau ereill a chyfeillion. Bu'n nychu ar hyd y blynyddoedd a thrwy ofal mawr o'i du ef a'i bobl y llwyddodd i fyw cyhyd. Tua chwe wythnos cyn y terfyn dechreuodd waelu a gwaelu'n gyflym wnaeth hyd nes daeth yr alwad adref. Claddwyd ei weddillion yn ymyl eiddo ei fam ym mynwent Bwlchyfadfa y dydd Mawrth dilynol pryd y daeth tyrfa luosog o gymdogaeth ei gartref i'w hebrwng. Pregethwyd gan y Parch. J. O. Jones (A), Pencae a chymerwyd rhan gan y Parchn. E. O. Jenkins a J. C. Lloyd (A), Brynrhiwglaed. Cawsom ar ddeall gan ei weinidog ei fod yn ddyn ieuanc o yspryd diniwed, un diddig yn ei gartref ac un a berchid yn ei ardal. Bydd cofio hyn yn help i'r tad a'r teulu i ymdawelu yngwyneb ei golli.

BLINDER calon ydyw cofnodi marwolaeth Miss E. A. Rowlands, Ferniebank, Llewelyn Street, Trecynon, yn 59 oed. Bu farw dydd Sul, Medi 25ain ar ol cystudd byr. Yr ydoedd wedi bod dan "operation" yng Nghaerdydd, ac yr oeddym i gyd yn gobeithio y byddai hi yn gwella, ond cawsom ein siomi. Pleser oedd bod yn ei chwmni oherwydd yr ydoedd wedi cael profiad eang. Bu am flynyddoedd yn gweithio yn y Post Office yn Llundain, a diddorol dros ben oedd ei disgrifiad o'i theithiau yn yr Amerig ac ar Gyfandir Ewrop. Wedi dychwelyd i Drecynon yr oedd hi yn un o ffyddloniaid yr Hen Dy Cwrdd. Dynes dilol a diymhongar ydoedd hi, o feddwl treiddgar, o graffder neillduol ac o synwyr cyffredin cryf. Yr ydym i gyd mewn cydymdeimlad dwys a'r brawd a'r ddwy chwaer sydd ar ol yn eu gofid a'i hiraeth. Claddwyd ym mynwent Eglwys Penderyn dydd Mercher, Medi 28, 1932. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

HYDREF 7, David John Ithel Davies, unig ac annwyl fab Mr. a Mrs. David Davies, Lincoln Stores, Llandysul, yn 23 oed. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. R. Morris, Penybont a D. Rhydderch, B.A., Seion, Llandysul. Gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Nid yn aml y gelwir arnom

i ysgrifennu marwgof i fachgen ieuanc o gymeriad mor llawn, mor hardd ac mor addawol ag a oedd Ithel, a chwyd ton ar ol ton o dristwch trosom wrth feddwl ein bod wedi ei golli. Ers nifer o flynyddoedd yr oedd yn paratoi ei hun i fod yn fferyllydd, ac i'r diben hwnnw bu am dymor yn Aberystwyth ac wedi hynny yng Nghaerdydd yn cael profiad a chyfarwyddyd gyda'r gwaith. Y cam nesaf—pe bai wedi cael cario allan ei raglen—fyddai mynd i'r coleg i orffen cymhwyso'i hun, ond druan o honno chwalwyd ei holl obeithion ag eiddo'i rieni. Lle bynnag yr ai enillai gyfeillion—yr oedd yna rywbeth ynddo a dynnai bobl yn agos ato—yn ddigon agos i'w anwylo. Dyna'i hanes ymhobman —gwneud cyfeillion. Cariai fel y gwelir dri rhagenw ond "Ithel" oedd ef i bawb ac yr oedd clywed pobl yn dweud yr enw "Ithel" yn awgrymu fod yna deimlad o anwyldeb mawr. Yn ystod ei gystudd blin meddiannwyd yr ardal gan bryder dwys, a mawr yr holi fu "Sut mae Ithel y dyddiau hyn?" Wedi ei farw meddiannwyd hi gan dristwch dwfn. Tystiai y llu mawr llythyrau o gydymdeimlad a gyrhaeddodd ei rieni a nifer luosog y torchau blodau a guddient ei fedd fod un annwyl wedi mynd. A cydymdeimlad calon llu mawr o gyfeillion allan at ei rieni yn eu profedigaeth lem. Bellach nid oes ganddynt ond byw ar adgofion—ond adgofion melus iawn ni a gredwn. Boed i aden y Tad gorau eu cysgodi.

Ar y 18fed o Hydref, yn 59 oed, bu farw David Martin Jones, Gwion Castle, ger Llandysul. Yn fab i'r diweddar Thomas Jones, Arwerthwr, Cwrtnewydd, a'i briod; hannai o'r ddau tu o gyffiau teuluol lluosog o ganghennau yng Nghanolbarth Ceredigion. Dechreuodd ei yrfa fel masnachwr yn y siop gyda'i rieni. Wedi hynny, er cael profiad helaethach, aeth i'r Brif Ddinas; a bu yno am rai blynyddoedd. Tra fu yno, enillodd barch a serch cylch eang, yn enwedig gan ei gyd-Gymry y daeth i gyffyrddiad â hwynt. Yr oedd yn un o'r nifer o Undodiaid Cymreig y Brif Ddinas a fu'n cynnal gwasanaeth Undodaidd yn Gymraeg yn Essex Hall; a gwnaeth ei ran i sicrhau ei lwyddiant. Ar ei briodas â Miss Lloyd Thomas, unig ferch Rhys Thomas a'i briod, Gwion Castle, dychwelodd i Landysul, gan wneuthur ei gartref gyda'i rieni-yng-nghyfraith, hyd y darfu iddynt adeiladu anedd-dŷ iddynt eu hunain ger llaw. Yng Ngwion Castle y treuliodd y gweddill o'i ddyddiau. Ychydig flynyddoedd yn ôl cyfarfu â damwain, a effeithiodd yn fawr ar ei iechyd. Yn ddiweddar, tybid ei fod ar y ffordd i adferiad; eithr tua mis yn ôl gwaethygodd, a dirywiodd yn raddol hyd ei farw. Yn ystod ei dymor yn Llandysul, ni chymrodd ran amlwg iawn ym mywyd cyhoeddus ei ardal a'i Sir. Bu'n Aelod o Fwrdd Ustusiaid Llandysul, ac yn noddwr o amryw fudiadau lleol, masnachol gan y mwyaf. Nid ar fywyd cyhoeddus oedd ei fryd; mwy cydnaws â'i natur oedd bywyd tawel boneddwr gwledig. Ymaelododd yng Nghapel-y-bryn dan weinidogaeth y diweddar Barch. John Davies; wedi iddo ymsefydlu yn Llandysul, symudodd ei aelodaeth i'r Graig; a bu'n aelod ffyddlon, yn ogystal a diacon a thrysorydd y rhan fwyaf o'r amser. Bu hefyd yn Drysorydd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig am flynyddoedd. I gylch ei adnabyddiaeth, yn enwedig i'r sawl o honynt a fu mewn cyffyrddiad gweddol agos ag ef, daethai elfennau dymunol ei gymeriad yn amlwg; a theimlad o barch diffuant a fynwesid gan y cyfryw tuag ato. Gadawodd briod, un brawd, tad-yng-nghyfraith, yng-hyd â chylch eang o berthynasau, mewn hiraeth o'i golli. Y dydd Sadwrn dilynol, aed a'i weddillion i fynwent Pantydefaid, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau agosaf yn y tŷ, cyhoeddus yn y Capel. Yn y capel yr oedd tyrfa anarferol o luosog wedi ymgynnull, nid yn unig o bobl y gymdogaeth, ond hefyd o gylch eang o wlad. Gwasanaethwyd wrth yr Organ gan Miss Thomas, Penarwel; ac arweiniwyd y gwasanaethau gan y Parch. D. Evans, Cwmiago.

# *Nodion yr Eglwysi.*

TRYSORFA'R MYFYRWYR.—Carwn drwy gyfrwng yr YMOFYNNYDD ddiolch yn fawr i "Hen Gyfeilles" am ei rhodd o £1 tuag at y Drysorfa hon eleni eto.—E. O. JENKINS.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn y lle hwn nawn a hwyr Mercher, Hydref 5. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. A. Williams, Carmel, cymydog agos. Cafwyd cynulliadau da, canu da a gwasanaethau da. Teimlwn yn wir ddiolchgar i Mr. Williams am ei garedigrwydd yn dod.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—Saboth, Hydref 2, 1932, cynhaliodd eglwys yr Hen-Dy-Cwrdd ei Gwyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf. Gwasanaethwyd bore a hwyr yn Gymraeg gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr, ac yn y prynhawn gan y Parch. T. L. Jones, Cefn-coed yn Saesneg. Traethai y ddau yn hwylus iawn, gan ddwyn i'n clyw wersi pwysig a phendant drwy gyfrwng y Cynhaeaf. Yn anffodus eleni cynhaliai amryw eglwysi y cylch eu cyfarfodydd blynyddol ar yr un dydd, a milwriai hyn ychydig yn ein herbyn. Er hynny, cafwyd cynnulliadau da ymhob oedfa. Y nos Lun ganlynol, sef y 3ydd o Hydref, 1932, traddododd y Parch. T. Oswald Williams, M.A. ddarlith ar "Gwilym Marles". Cadeiriwyd gan y gweinidog, y Parch. E. R. Dennis. Arweiniwyd y cynhulliad yn y rhan ddefosiynnol gan y Parch. T. L. Jones, Cefncoed. Daeth cynhulliad da ynghyd nes llanw y festri, a balch iawn oeddem i weled nifer wedi dyfod o eglwys Cefn-coed, ac hefyd brodyr a chwiorydd perthynol i eglwysi tuallan i'r gorlan Undodaidd. Olrheiniodd y darlithydd hanes Gwilym Marles drwy gydol ei yrfa o'i gryd i'w fedd yn fanwl iawn. Er wedi ei eni i deulu tlawd yng Nglan-Rhyd y Gwiail ar lan afon Cothi, cododd i binacl uchel yn ei oes, gan beri i'w ddylanwad ymestyn drwy Geredigion ben bwy gilydd a thuhwnt i'w ffiniau. Mabwysiadwyd ef gan fodryb, chwaer ei dad. Cartref crefyddol gafodd ganddi a buan gwawriodd elfennau crefyddol yn ei galon ieuanc yntau. Hoffai ymneilltuo o dan bren ar lan afon Cothi i ddal cymundeb â Duw, a chryfhau a wnai yr arferiad yma, nes ei feddiannu mor llwyr fel na wnelai ddim heb weddio yn ddwys am help Duw i wneud ei waith. I oes ormesol a therfysglyd y ganwyd ef, ond ymwrolodd a phenderfyniad di-ildio i weithio yn ddiflin dros achos y tyddynwyr gormesedig, er eu rhyddhau o ormes y tir-feddiannwyr. Gwnai ymwroliad a phenderfyniad di-ildio tebyg i eiddo Gwilym Marles yn aelodau ein heglwysi heddiw, hen ac ieuanc, fendith amhrisiadwy i'r enwad Undodaidd. Tybed a yw bosibl eu meddiannu. Ymneillduwn fel Gwilym Marles o dan rhyw bren i weddio yn ddwys am help Duw i'n meddiannu. Fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD, aeth y frwydr yng Ngheredigion mor frwd nes iddo ef a'i ddiadell yn Llwynrhydowen gael eu troi allan o'u teml lle yr arferent addoli Duw yn unol a'u cydwybod. Bu hyn yn achos torcalonnus iddo, ac amharodd ei iechyd yn ddirfawr. Ceisiodd adferiad trwy gymryd mordaith ond er pob ymdrech gwanhau oedd, nes huno ar Ragfyr 11, 1879, gan ffarwelio a phoen a gofid am byth. Saif dylanwad ei ymdrechion yn y tir heddiw yn gofgolofn am lafur diflin dros ei gydoeswyr. Teilwng yw mi gredaf o'r geiriau hynny fynegwyd am Grist ei hun, sef "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef, rhoddi ei einioes dros ei gyfeillion." Am y ddarlith a fwynhawyd yn fawr gan bawb oedd yn bresennol, nid oes ond un gair yn bwrpasol, sef, "ARDDERCHOG". Siaradwyd geiriau o gymeradwyaeth gan y Cadeirydd, y Cynghorwr D. Tyssul Davies, Y.H., Mr. Edgar Williams, Mr. John Griffiths a Mrs. John Davies. Wedi cael cynhygiad ac eiliad, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch gwresocaf y cynhulliad i Mr. Williams am ei ddarlith odidog.

---

*J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.*

# FOUR GOOD BOOKS.

**The Unitarian Heritage.**

(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

**Judaism in the New Testament Period.**

By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

**The King who was Thirsty.**

(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

**Be Comforted.**

An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

# JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

*E. LLOYD JONES.*

**OS YDYCH AM RODDI . .**

*Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul*

**. . A FYDDO YN DDERBYNIOL**

—RHOWCH GOPI O'R—

# 'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

**ARGRAFFIAD SOLFFA.**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ... | 7 | 0 |
| Lledr ... ... ... ... eto ... | 5 | 6 |
| Lledr, ochrau Llian ... ... ... eto ... | 4 | 6 |

**ARGRAFFIAD HEN NODIANT.**

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Lledr, Ymylon Aur ... ... ... ... ... | 7 | 6 |
| Rhwymiad Arbennig, eto ... ... ... ... | 15 | 0 |

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

**: : J. D. LEWIS, : :**

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.